**Eitem: 4**

**Teitl:** Cynllun Ariannol Llais 2025/26

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w ystyried a'i gymeradwyo |
| **Amseru / Timing** | Blynyddol |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>• Nodi a thrafod cynnwys yr adroddiad hwn<br>• Adolygu a chymeradwyo Cynllun Ariannol 2025/26. |
| **Risg / Risk** | Risg i enw da a risg ariannol |
| **Cyllid / Finance** | Mae'r Gyllideb yn manylu ar y Cynllun Ariannol ar gyfer 2025/26. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r gwerth. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adroddiad. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Tyfu a gwella fel sefydliad |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Amherthnasol – Mae'r gyllideb ariannol wedi'i drafftio yn unol â'r cynllun blynyddol, sy'n sicrhau bod Llais yn ystyried ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Joanne Bolton (Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol) |
| **Trafodaethau / Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Mae'r Bwrdd wedi trafod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar gyllideb ddrafft Rhagfyr 2024 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Roedd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y cynllun blynyddol yn cael ei gyflawni o fewn ffigyrau'r gyllideb. |
| **Awdur / Author** | Katie Holliday, Cyfarwyddwr Cyllid |
| **Dyddiad / Date** | 26 Mawrth 2025 |
| **Cefndir / Background** | |

Mae'r papur hwn yn amlinellu Cynllun Ariannol Llais ar gyfer 2025/26. Mae'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o gyllidebau incwm a gwariant y sefydliad, risgiau ariannol allweddol, a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei gynllun blynyddol.

Mae'n amlygu'r cyd-destun cyllidebol, gan gynnwys heriau a chyfleoedd, ac yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i sicrhau bod Llais yn parhau ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcanion strategol.

Cyflwynwyd cyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26 i Lywodraeth Cymru, a oedd yn gofyn am gynnydd o £759K dros gyllidebau sylfaenol 2023/24 a 2024/25. Mae'n bwysig nodi nad oedd cyllideb Llais wedi'i hadolygu ers ei sefydlu yn 2023.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft, gan fynd i'r afael yn rhannol â chyfyngiadau cyllidol Llais drwy ddyrannu cyllideb uwch o £8,295m (addasiad ar gyfer Cyfraniadau Pensiwn wedi'u Haddasu ar sail Profiad Blaenorol - SCAPE). Fodd bynnag, disgynnodd y gyllideb hon £192,000 yn brin o gais cyllideb wreiddiol Llais.

Cynhaliodd y Tîm Gweithredol adolygiad manwl o gyllideb ddrafft Llais, gan archwilio opsiynau a senarios amrywiol gan ystyried yr effaith ar gyflawni. Arweiniodd hyn at leihad mewn rhai meysydd gwariant, er mwyn sicrhau bod Llais yn parhau i allu cyflawni ei gynllun gweithredol tra'n aros o fewn y gyllideb a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Diweddariad ar Yswiriant Gwladol**

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU, fel rhan o Gyllideb yr Hydref y DU, y byddai llywodraethau datganoledig yn cael cyllid ychwanegol i wrthbwyso cost cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch cyflogwyr, y tu hwnt i'r symiau a ddyrannwyd yng Nghyllideb y DU.

Er nad yw lefel y cymorth ar gyfer Cyrff Hyd Braich Cymru wedi'i gadarnhau eto, mae disgwyl iddo ddilyn trywydd tebyg. Ym mis Rhagfyr 2024, hysbyswyd Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar strwythur presennol Llais, y byddai cyhoeddiad y Canghellor yn cynyddu costau Yswiriant Gwladol gan £120,000.

## Manylion / Detail

Mae'r Cynllun Ariannol hwn yn amlinellu cyllideb Llais ar gyfer 2025/26 a'r risgiau ariannol allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyflwynir y cynllun i'r Bwrdd ei gymeradwyo, ac mae'n amlygu'r adnoddau ariannol sydd eu hangen i gyflawni'r

cynllun busnes Blynyddol.

Yn unol â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Llais, mae'r Cynllun Ariannol hwn yn sicrhau na fydd gwariant yn fwy na'r incwm a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'i Gweinidogion.

## Llythyr Cyllid Llywodraeth Cymru

Fel y nodir yn Nogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, fel arfer caiff Llythyr Cyllid Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi nid hwyrach na mis ar ôl i'r Senedd gytuno ar y gyllideb derfynol. Felly, dylai llythyr cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Llais gael ei gyhoeddi erbyn 20 Mawrth 2025.

Mae swyddogion Llais wedi pwysleisio wrth gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru fod y llythyr dyrannu yn hollbwysig er mwyn galluogi Llais i gyflwyno Cynllun Ariannol i'r Bwrdd ei gymeradwyo. Mae cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y bydd y gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd yn gwasanaethu fel cyllideb gychwynnol Llais ar gyfer 2025/26.

Dylai hyn roi sicrwydd i'r Bwrdd y bydd y llythyr cylch gwaith a'r cyllid yn cyd-fynd â'r tabl isod.

| SOCIAL JUSTICE | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| RESOURCE | | | | | |
| Budget Expenditure Line | 2025-26 Draft Budget December 2024 | MEG to MEG Transfers | Transfers Within MEG | Transfers to / from Reserves | 2025-26 Final Budget February 2025 |
| | £000s | £000s | £000s | £000s | £000s |
| Citizen Voice Body | 8,062 | (134) | - | - | 7,928 |
| Citizen Voice Body - Non cash | 367 | - | - | - | 367 |
| **Action: Citizen Voice Body** | **8,429** | **(134)** | **-** | **-** | **8,295** |

Tabl 1: Dyfyniad o dabl Prif Grant Gwariant Llywodraeth Cymru

## Cyllidebau incwm

Er nad yw'r Llythyr Cyllid wedi'i gyhoeddi eto, mae Cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd (uchod) yn cadarnhau mai cyfanswm cyllideb Llais yw £8.295m.

**Cyllidebau adnoddau**

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o ddyraniad cyllideb Llais dros brif feysydd gwariant y sefydliad. Mae'n dod i gyfanswm o £8,295K, sy'n cytuno i ddyfyniad tabl cyllideb Llywodraeth Cymru uchod. Mae'r gyllideb yn cynnwys ymrwymiad parhaus i ddatblygu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, trwy barhau â rôl cyfnod penodol i arwain y darn hwn o waith.

**Budget summary - Full Organisation**

| | 2025/26 Draft Budget £'000 | 2025/26 Budget £'000 |
|---|---|---|
| Salaries | 6,368 | 6,259 |
| Other staff costs | 184 | 157 |
| Accomodation costs | 379 | 387 |
| IT costs | 919 | 917 |
| Professional Fees | 222 | 174 |
| Variable costs | 415 | 401 |
| | **8,487** | **8,295** |

Mae Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o'r gyllideb hon fesul rhanbarth / adran, yn ogystal â chyfansymiau cyfwerth ag amser llawn staff wedi'u dadansoddi fesul rhanbarth.

**Adnoddau gan gynnwys cyllideb heb fod yn arian parod**

Mae'r llinell gyllideb heb fod yn arian parod o £367K o fewn y dyfyniad o gyllideb Llywodraeth Cymru uchod, wedi'i dyrannu'n gyfan gwbl ar gyfer costau sy'n ymwneud â dibrisiad neu amorteiddiad asedau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Amorteiddiad system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) Llais.
- Costau sy'n gysylltiedig â Chytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) TG Centerprise.
- Dibrisiad prydlesi llety.

**Cyllideb cyfalaf**

Ar hyn o bryd, nid oes cyllideb adnoddau cyfalaf wedi'i dyrannu i Llais ar gyfer 2025/26.

Wrth i Llais barhau i werthuso ei ystâd a thrafod prydlesi newydd, efallai y bydd angen gofyn am gyllideb gyfalaf i roi cyfrif am brydlesi anllywodraethol, yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Yn ogystal, bydd y system CRM yn cael ei hadolygu, a gallai unrhyw ddiweddariadau neu welliannau gofynnol arwain at geisiadau am arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

**Ymarfer VERS a'r Goblygiadau Cyllidebol Canlyniadol**

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod Llais wedi cychwyn Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS) yn ddiweddar. O ganlyniad, bydd swyddi gwag o fewn y strwythur presennol yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn weithredol Llais yn 2025/26, gan arwain at rai arbedion cyllidebol.

Bydd Llais yn parhau i fonitro gwariant yn fisol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n briodol.

**Rheoli heriau ariannu yn ystod y flwyddyn**

Yn ystod 2024/25, nododd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru y dylid ymdrin ag unrhyw heriau ariannol sy'n deillio o setliad 2024/25 "yn ystod y flwyddyn". Mae'n bwysig ystyried y dull hwn ar gyfer 2025/26. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall fod cyfleoedd untro ar gyfer cyllid ychwanegol, sy'n ymwneud â phrosiectau / darnau o waith penodol.

Yn 2024/25, rhoddodd Llywodraeth Cymru £684.5k ychwanegol mewn cyllid i Llais, wedi'i ddyrannu fel a ganlyn:

- £87.5k i gynorthwyo gyda'r gwaith o symud swyddfa i swyddfeydd sector cyhoeddus,
- £97k i gydnabod effaith yr argyfwng costau byw, a
- £500k i gynorthwyo gyda'r Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd.

Ar gyfer 2025/26, bydd Tîm Gweithredol Llais yn ystyried cyfleoedd, ac yn cysylltu â Llywodraeth Cymru pe bai cyllid ychwanegol ar gael.

**Cymorth Grant (Arian parod)**

Mae Fframwaith Llywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi: *"Ni ddylai cymorth grant arian parod gael ei dynnu i lawr cyn bod angen, gan fod cadw symiau gormodol o arian parod yn ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus. Rhaid i unrhyw gymorth grant heb ei wario a gedwir ar ddiwedd y mis neu ddiwedd y flwyddyn aros o fewn 4% a 2% yn y drefn honno o gyfanswm y cymorth grant arian parod a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn honno."*

Ar ôl cyfrif costau heb fod yn arian parod, gofyniad Cymorth Grant cychwynnol Llais ar gyfer 2025/26 yw £8.171m. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd £500k pellach yn cael ei ddarparu ym mis Ebrill 2025, i dalu'r costau arian parod sy'n gysylltiedig â'r cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd.

Ar ôl cwblhau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llais ar gyfer 2024/25, bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am ofynion Cymorth Grant terfynol Llais. Efallai y bydd angen addasiad pellach i gyfrif am gredydwyr a gariwyd ymlaen.

Atodiad A

## Budget summary - analysed by department.

| 2025/26 Budget | Total | National Team | North Wales | Gwent | West Wales | Cardiff & VOG | Powys | Neath Port Talbot & Swansea | Cwm Taf Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Salaries | **6,260,552** | 1,949,112 | 821,432 | 585,089 | 676,476 | 573,670 | 518,251 | 513,964 | 622,559 |
| Other staff costs | **157,300** | 112,000 | 17,000 | 5,500 | 5,000 | 2,700 | 9,000 | 2,000 | 4,100 |
| Accomodation costs | **387,061** | 94,518 | 72,893 | 78,843 | 28,562 | - | 42,233 | 39,944 | 30,069 |
| IT costs | **916,054** | 903,233 | 2,236 | 1,640 | 2,348 | 1,541 | 1,457 | 1,670 | 1,929 |
| Professional Fees | **173,922** | 173,922 | - | - | - | - | - | - | - |
| Variable costs | **400,941** | 276,100 | 23,343 | 14,355 | 12,559 | 14,444 | 22,510 | 22,620 | 15,010 |
| | **8,295,830** | **3,508,884** | **936,904** | **685,427** | **724,944** | **592,355** | **593,451** | **580,198** | **673,667** |
| | | | | | | | | | |
| **Full Time Equivalents** | **107.40** | 26.00 | 15.20 | 11.24 | 11.81 | 11.48 | 9.56 | 10.31 | 11.80 |